

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-Y-Môr
Heol St Alban
Brynmill
Abertawe
SA2 0BP

30/09/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Gwella darpariaeth yn y cyfnod dysgu sylfaen i sicrhau bod y disgyblion yn cael eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu

- Mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol i sefydlu gweledigaeth a disgwyliadau clir ar gyfer cynnig darpariaeth yn y dysgu sylfaen sy'n diwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol.
- Mae prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol yn galluogi arweinwyr i fonitro ansawdd y ddarpariaeth yn effeithiol. Mae hyn wedi eu helpu i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent wedi darparu dysgu proffesiynol cadarn sydd wedi cryfhau dealltwriaeth staff o addysgeg y blynyddoedd cynnar ac wedi eu galluogi i addasu eu cynllunio er mwyn sefydlu disgwyliadau cyson a datblygiadol.
- Mae athrawon ar draws y dysgu sylfaen yn addasu a threialu dulliau dysgu yn rheolaidd. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n cynnig lefel briodol o her ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol.
- Yn ystod gweithgareddau annibynnol, mae staff yn holi, arsylwi ac yn cynnig ymyriadau pwrpasol, sy'n ymestyn meddwl disgyblion, yn dyfnhau eu dysgu ac yn eu hannog i ddyfalbarhau wrth wynebu heriau yn briodol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn mwynhau eu dysgu, yn cwblhau eu gweithgareddau yn fyrlymus ac yn trafod a rhannu gwybodaeth ag ymwelwyr yn naturiol.

- O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a hyderus sy'n barod i herio eu hunain, gwneud dewisiadau pwrpasol a dyfalbarhau â thasgau mwy heriol.

Cryfhau'r adborth i ddisgyblion er mwyn eu cynorthwyo i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

- Mae'r pennaeth, ar y cyd â staff, wedi datblygu a gweithredu polisi addysgu a dysgu sy'n rhoi arweiniad clir ar sut i ddefnyddio adborth i helpu disgyblion i wella eu gwaith.
- Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus sydd wedi cryfhau dealltwriaeth staff o nodweddion adborth effeithiol. Mae cyfleoedd rheolaidd i staff drafod, myfyrio a chynnal gwaith ymchwil ar eu harferion yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut i ddarparu adborth buddiol. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod yr arferion mwyaf effeithiol yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y dosbarthiadau.
- Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd buddiol i staff ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer effeithiol. Mae hyn wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r strategaethau sy'n cefnogi disgyblion i ymateb i adborth a gwella eu gwaith yn fwriadus.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn darparu adborth llafar defnyddiol a chefnogaeth bwrpasol i gefnogi disgyblion i wella eu gwaith. Maent yn holi'r disgyblion yn rheolaidd, ac mae'r trafodaethau buddiol sy'n deillio o hynny yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn gyson effeithiol ar draws y meysydd dysgu.
- Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth a gânt ac yn ymateb yn gadarnhaol, gan fireinio a gwella eu gwaith yn hyderus. Mae'r disgyblion hyn yn dangos annibyniaeth gynyddol wrth wirio a gwella eu gwaith, gan wneud defnydd effeithiol o gymorth eu cyfoedion ac adnoddau priodol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702098>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.